



SWYDD WAG: RHEOLWR CYFRANOGIAD

DATGANIAD CENHADAETH Y PROSIECT INSIDE OUT CYMRU

Mae Inside Out Cymru yn bodoli i annog mynediad i'r celfyddydau a mynegiant creadigol, gan hyrwyddo lles meddyliol trwy weithdai celfyddydau, digwyddiadau, gweithio mewn partneriaeth a gweithgareddau eraill a gynhelir mewn cymunedau lleol.

Nod Inside Out yw creu lleoliadau integredig mewn cymunedau lleol i bawb a bod yn gynhwysol ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Byddwn yn herio stereoteipiau a stigma o amgylch materion iechyd meddwl, yn codi hunanbarch a lefelau hyder ac yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac artistig ein cyfranogwyr.

CEFNDIR Y PROSIECT

Mae'r Prosiect Inside Out wedi gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Caerffili er 2000, a daeth yn yr elusen Inside Out Cymru (IOC) yn 2013, gan ymestyn ei waith i ardal ehangach Gwent. Mae IOC yn cynnal gweithdai mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae gweithdai'n agored i'r cyhoedd, ond rhoddir croeso arbennig i gyfranogwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r elusen Inside Out Cymru yn cael ei rhedeg gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau gwirfoddol, gweithwyr iechyd meddwl, swyddogion celfyddydau ac asiantaethau datblygu eraill.

Ymhlith y gweithdai celfyddydau a gynhaliwyd hyd yn hyn mae ffotograffiaeth, ysgrifennu creadigol, cerddoriaeth, celfyddydau gweledol, creffttau, adrodd straeon digidol, dawns a drama. Mae IOC yn creu cyfleoedd rheolaidd i arddangos gwaith y cyfranogwyr, gan gynnwys recordio CDs, darlleniadau barddoniaeth, arddangosfeydd celfyddydau gweledol, ffilmiau a sioeau.

Datblygwyd y swydd Rheolwr Cyfranogiad i gynorthwyo'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a staff eraill yr IOC i redeg yr elusen o ddydd i ddydd.

SWYDD WAG

Mae Inside Out Cymru yn chwilio am Reolwr Cyfranogiad i gydlynu, datblygu a goruchwyllo rhaglen weithdai'r elusen. Mae Inside Out Cymru yn gweithio gydag oedolion, gyda'r nod o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a llesiant meddwl drwy'r celfyddydau a gweithgarwch creadigol. Mae gweithdai'n agored i'r cyhoedd, ond rhoddir croeso penodol i gyfranogwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae swydd y Rheolwr Cyfranogiad wedi ei datblygu i gynorthwyo'r Rheolwr Cyffredinol a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i redeg rhaglen weithgareddau'r elusen o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol megis Tîm Datblygu'r Celfyddydau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaethau Cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth, sefydliadau partner ac amrywiaeth o grwpiau cymunedol i ddatblygu rhaglen weithdai ledled ardal Gwent, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein gwaith ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy.

Bydd y comisiwn yn rhedeg o'r wythnos yn cychwyn ar Ddydd Llun 31ain Mai 2021 tan 31ain Mawrth 2023, a bydd yn seiliedig ar oriau gweithio hyblyg o 22.5 awr yr wythnos neu 0.6 cyfwerth â llawn amser, gyda chyflog o £28,000 *pro rata* (£16,800 gwirioneddol). Nid yw hwn yn gytundeb llawrydd - os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael eich cyflogi gan yr elusen.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o weithio gyda phartneriaid drwy gydgyhyrchu a datblygu prosiectau, cynnal cyllidebau prosiectau a rheoli tîm. Bydd y swydd hon hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglen hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal iechyd allu magu sgiliau er mwyn cyflwyno gweithgareddau creadigol ar gyfer eu defnyddwyr gwasanaeth.

Gwybodaeth bellach: www.inside-out-cymru.org/jobs

SUT I WNEUD CAIS

Dylid anfon llythyr cais yn rhoi manylion sut ydych yn cyflawni y fanyleb person, CV atodol ac enw dau/dwy ganolwr a **info@inside-out-cymru.org**.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12 hanner hwr Dydd Llun 10eg Mai 2021, a byddwn yn gwahodd y rhai ar y rhestr fer am gyfweiliad yn ystod wythnos 17eg Mai. Bydd y swydd yn cychwyn yn ystod wythnos 31ain Mai.

Mae Inside Out Cymru yn ymdrechu i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Mae'r postiad hwn wedi ei noddi gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

AMCANION CYFFREDINOL SWYDD Y RHEOLWR CYFRANOGIAD

I oruchwylio datblygiad a rheolaeth o'r Elusen yn ei chyfanrwydd. Bydd y Rheolwr Cyfranogiad yn gweithio gyda'r Rheolwr Cyffredinol, y Gweithiwr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth, Artistiaid a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i gryfhau cynaliadwyedd a gweledigaeth y prosiect.

Gweithgareddau Allweddol Y Swydd

- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y sefydliad yn arbennig mewn cyswllt â'r rhaglen o weithdai
- Adnabod artistiaid addas yn y gymuned i ddarparu gweithdai a gweithgareddau ar gyfer Inside Out Cymru, llunio eu contractau a thrafod ffioedd
- Goruchwylio'r gyllideb ar gyfer gweithdai Inside Out Cymru a thrafod gwariant ar draws y prosiect
- Creu adroddiadau perfformiad misol
- Cynorthwyo i ddatblygu ceisiadau am gyllid ar gyfer meysydd gwaith newydd
- Cynorthwyo i fonitro a gwerthuso'r rhaglen waith
- Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Rheolwr Cyffredinol a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Cysylltu â gwasanaethau a sefydliadau perthnasol i adnabod prosiectau penodol i'w datblygu sy'n hyrwyddo gwaith Inside Out Cymru yn unol â'i nodau a'i amcanion fel elusen
- Goruchwylio a chefnogi gwaith y Swyddog Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth
- Gweithio ochr yn ochr â'r Swyddog Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth ac Artistiaid i drefnu digwyddiadau dathlu i hyrwyddo gwaith Inside Out Cymru
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill o fewn cwmpas a gradd y swydd

Profiad a Nodweddion Hanfodol

- O leiaf 2 flynedd o brofiad mewn amgylchedd rheoli'r celfyddydau perthnasol.
- Gwybodaeth am y sîn celfyddydol ac ymarferwyr yn Ne Cymru.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gydag unigolion, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol a'r gallu i ddatblygu partneriaethau.
- Y gallu i ddechrau prosiectau a gweithio'n annibynnol yn ogystal ag fel aelod o dîm ehangach.
- Sgiliau hunan-reoli a rheoli amser da.
- Profiad a gwybodaeth o drin cyllidebau.
- Sgiliau Gweinyddol da
- Parodrwydd i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei nodi gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Parodrwydd i gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

- Addysg hyd at lefel gradd o leiaf mewn maes perthnasol megis y celfyddydau neu iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl a sensitifrwydd i anghenion unigolion sy'n agored i niwed.
- Parodrwydd i weithio'n hyblyg gan gynnwys rhai gyda'r nosau a phenwythnosau (lleiafswm o 22.5 awr yr wythnos neu 0.6 cyfwerth ag amser llawn).
- Sgiliau TG gan gynnwys Microsoft Office neu gyfwerth a rhaglenni golygu lluniau.

Profiad a Nodweddion Dymunol

- Trwydded yrru a cherbyd eich hun
- Gwybodaeth am farchnata
- Profiad fel ymarferydd celfyddydau
- Profiad o lunio ceisiadau am grantiau a denu cyllid er mwyn datblygu prosiect cynaliadwy.
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr
- Diddordeb yn y celfyddydau a'u heffaith ar unigolion
- Cymwysterau mewn gweinyddu/cadw cyfrifon
- Siaradwr Cymraeg